# Byddi di'n teimlo'n well.





**Yn yr haf**

A: O, mae hi'n heulog heddiw.

B: Ydy. Mae hi'n heulog iawn, iawn.

A: Mae hi'n boeth.

B: Ydy. Mae hi'n boeth iawn, iawn.

A: Sut wyt ti'n teimlo?

B: Dw i'n teimlo'n boeth iawn, iawn. Dw i'n berwi!

A: Wyt ti eisiau diod?

B: O, ydw, os gwelwch yn dda.

A: Dyma ti. Dŵr. Yfa ddŵr a byddi di'n teimlo'n well.



**Yn y diffeithwch**

A: Pwy wyt ti?

B: Siân ydw i.

A: O ble wyt ti'n dod?

B: Dw i'n dod o Gymru.

A: Beth wyt ti'n wneud?

B: Dw i'n rhedeg marathon.

A: Yn y diffeithwch?

B: Yn y diffeithwch.

A: Bobl bach. Sut wyt ti'n teimlo?

B: Dw i wedi blino a dw i'n boeth iawn, iawn. O, help ... help ... help.

A: Beth sy'n bod?

B: Dw i eisiau diod.

A: Dyma ti. Dŵr. Yfa ddŵr a byddi di'n teimlo'n well.

B: O, diolch, diolch, diolch.

| | |
|---|---|
| yn berwi | boiling |
| diod | a drink |
| diffeithwch | desert |